# RHAGOLYGON Y GWEITHLU ADEILADU CYMRU



Adroddiad Gwybodaeth am y Farchnad Lafur

2025–2029

citb

OXFORD ECONOMICS

# CYNNWYS

| | |
|---|---|
| RHAGAIR | 3 |
| FFEITHIAU A FFIGURAU ALLWEDDOL | 4 |
| TROSOLWG ECONOMAIDD | 6 |
| ALLBWN ADEILADU | 8 |
| GWEITHLU | 10 |
| GWEITHWYR YCHWANEGOL | 12 |
| ADRODDIADAU CENEDL | 14 |



# RHAGAIR

**A allwn ni ei adeiladu? Gallwn, gyda buddsoddiad mewn hyfforddiant sy'n arwain at swyddi nawr.**

**Mae diwydiant adeiladu Cymru yn wynebu dewis hollbwysig. Parhau i recriwtio, hyfforddi a datblygu ei weithlu fel y mae wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf, neu newid ac ailfeddwl sut mae'n denu, hyfforddi a chadw talent.**

Os na fydd y diwydiant yn newid, bydd yn aros ar lwybr lle mae swyddi gweigion yn anodd eu llenwi, bydd colli gweithwyr sy'n heneiddio yn arwain at golled gynyddol o arbenigedd gwerthfawr, a bydd CITB yn parhau i dynnu sylw at yr angen am dros 8,600 o weithwyr ychwanegol dros y pum mlynedd nesaf. Mae hefyd yn golygu na fydd y cyfleoedd a nodwyd yn yr adroddiad hwn i adeiladu cartrefi newydd, seilwaith a gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau yn cael eu gwireddu. Bydd cyflogwyr yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i unigolion medrus, sy'n barod ar gyfer y safle, gan arwain at oedi prosiectau a chostau uwch.

Os gall y diwydiant adeiladu newid ac ailfeddwl sut mae'n denu, hyfforddi a chadw ei bobl, gallai hyn arwain at weithlu hyd yn oed yn fwy galluog ac amrywiol sydd wedi'i gyfarparu'n well ar gyfer graddfa'r galw yn y dyfodol.

Er bod ystod eang o hyfforddiant eisoes yn digwydd, mae'r ffaith bod y diwydiant adeiladu yn ei chael hi'n anodd llenwi swyddi gweigion yn awgrymu nad yw system hyfforddi yn gwneud cysylltiad digon da â swyddi.

Mae hyfforddiant yn allweddol i gael y gweithlu sydd ei angen ar gyfer y dyfodol gyda newidiadau dwys yn y ffordd y caiff ei gyflwyno eisoes ar y gweill, a bydd CITB yn eu cefnogi trwy'r manylion a nodir yn ei Gynllun Strategol 2025-29 a'i Gynllun Cenedlaethol i Gymru. Mae helpu cyflogwyr adeiladu i recriwtio, hyfforddi a chadw prentisiaid yng Nghymru yn agwedd bwysig gan fod arwyddion yn awgrymu y bydd y nifer o unigolion a gymerir ymlaen ar gyfer 2024-25 yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Mae'r rhagolygon hyn yn dangos bod cyfleoedd o'n blaenau. Mae cyflawni'r cyfleoedd hyn yn llwyddiannus yn gofyn am ymrwymiad hirdymor gan gyflogwyr adeiladu Cymru, y Llywodraeth, darparwyr hyfforddiant, CITB a phartneriaid eraill i gefnogi buddsoddiadau mewn hyfforddiant sy'n arwain at swyddi. Os na fyddwn yn hyfforddi mwy o bobl ac yn sicrhau y gallant ymuno â'r diwydiant adeiladu, ni fydd gennym y gweithlu medrus, galluog a chynhyrchiol sydd ei angen i ni adeiladu cartrefi, ysbytai, ysgolion, rhwydweithiau pŵer a dŵr y dyfodol.




**Julia Stevens**
Cyfarwyddwr Ymgysylltu Cymru

# FFEITHIAU A FFIGURAU ALLWEDDOL

## Yn 2024, cyrhaeddodd allbwn adeiladu

# £7.2 biliwn.




Y sector mwyaf oedd **seilwaith (22%).**



## Twf allbwn blynyddol cyfartalog 2025 i 2029:

# 1.9%


## Gweithlu 2029:

# 117,420

## Mae angen:

# 1,720

## o weithwyr ychwanegol y flwyddyn.



# TROSOLWG ECONOMAIDD

**Tyfodd economi Cymru ar gyfradd ychydig yn gyflymach na chyfartaledd y DU yn 2024, gyda thwf Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) wedi'i amcangyfrif ar 1.0% o'i gymharu â 0.9% ledled y DU.**

Cafodd twf ei yrru'n bennaf gan iechyd a gofal cymdeithasol, y sector cyhoeddus, a thrafnidiaeth. Mae amodau economaidd yn parhau i fod yn heriol a disgwylir i dwf GVA aros yn wan yn 2025, ond rhagwelir y bydd y rhagolygon yn gwella, gyda thwf GVA blynyddol cyfartalog o 1.7% wedi'i ragweld ar gyfer 2025-2029. Cofnododd cyflogaeth dwf cryf hefyd yn 2024 (1.9%), gyda thua 28,600 o swyddi newydd net wedi'u creu, er bod amodau'r farchnad lafur wedi oeri, a rhagwelir twf cyflogaeth llawer gwannach yn 2025. Dylai twf swyddi godi dros y tymor canolig, gyda chyfradd twf blynyddol cyfartalog o 0.9% wedi'i rhagweld ar gyfer 2025-2029.

Ni pherfformiodd y sector adeiladu cystal â gweddill yr economi yn 2024, a gostyngodd allbwn adeiladu gan 17.8%. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad a adroddwyd mewn allbwn seilwaith (-46%). Mae seilwaith yn cynrychioli cyfran fawr o'r sector adeiladu yng Nghymru, gan gyfrif am 22% o gyfanswm yr allbwn, sy'n egluro'r effaith fawr a gafodd. Mae gweithgareddau atgyweirio a chynnal a chadw tai a gweithgareddau atgyweirio a chynnal a chadw nad ydynt yn ymwneud â thai hefyd yn gyfranwyr pwysig at allbwn adeiladu yng Nghymru, gan gyfrif am 17.2% a 18.6%, yn y drefn honno. Er i'r sectorau hyn gweld twf yn 2024, nid oedd hyn yn ddigon i wrthbwyso dirywiad mewn sectorau eraill.

Amcangyfrifir bod gan Gymru 8,000 o fusnesau adeiladu yn cyflogi pobl yn 2024, sy'n cyfateb i 14.4% o holl gyflogwyr Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r busnesau hyn yn fach iawn gyda chyfran ychydig yn is o fusnesau canolig a mawr na chyfartaledd y DU. Roedd 89% arall yn ficrofusnesau (llai na 10 o weithwyr), tra mai dim ond 1.3% oedd yn ganolig a mawr (dros 50 o weithwyr).

Mae marchnad lafur y diwydiant adeiladu yn dal i gael trafferth, ac mae cwmnïau adeiladu yn ei chael hi'n anodd recriwtio oherwydd prinder gweithwyr sydd â'r sgiliau a'r profiad gofynnol. Gostyngodd cyflogaeth adeiladu gan 4.8% yn 2024, sy'n cyfateb i golli 5,700 o swyddi, Yn y cyfamser, arhosodd cyfanswm y swyddi gweigion yn uchel yng Nghymru, gyda bron i 3,400 o swyddi gweigion ym mis Mawrth 2025, cynnydd o'i gymharu â'r un mis y llynedd.


Tyfodd cyflogau adeiladu yng Nghymru gan 7.3% yn 2024, yn gyflymach na'r hyn sy'n cyfateb yn y DU (6.1%) a'r cyfartaledd traws-ddiwydiant yng Nghymru (6.4%). Cyrhaeddodd y cyflog gros canolrifol fesul awr £17.10, sy'n cyfateb i lefel y DU ar gyfer y diwydiant cyfan, ac yn uwch na chyflog cyfartalog Cymru o £15.90.

Disgwylir i dwf allbwn adeiladu gynyddu yn 2025, gyda rhagolygon o 2025-2029 yn cael eu cefnogi gan gynllun Llywodraeth y Du ar gyfer datblygu tai a seilwaith. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon i Gymru ychydig yn wannach na'r rhagolwg ar gyfer y DU gyfan.


**Mae swyddi gweigion yn parhau i fod yn uchel yng Nghymru, gyda bron i 3,400 o swyddi gweigion ym mis Mawrth 2025.**




**Allbwn Adeiladu Cymru (2004-24)**




**Strwythur y Diwydiant Adeiladu (2024)**




**Mynegai Swyddi Gweigion (2019-25)**



# ALLBWN ADEILADU

**Rhagwelir y bydd allbwn adeiladu yn tyfu 1.2% yn 2025 yng Nghymru, yn dilyn dirywiad yn 2024 (-17.8%). Yn y tymor canolig, rhagwelir y bydd allbwn adeiladu ar gyfartaledd o 1.9% y flwyddyn rhwng 2025 a 2029, cyflymder ychydig yn wannach na chyfartaledd y DU o 2.1%.**

Disgwylir i dai newydd cyhoeddus a phreifat dyfu ar y gyfradd gyflymaf dros y pum mlynedd nesaf, ar gyfartaledd o 4.4% a 4.1% y flwyddyn, yn y drefn honno. O ganlyniad, disgwylir i Gymru ragori'n sylweddol ar gyfartaledd y DU o ran twf tai newydd, lle rhagwelir y bydd tai newydd cyhoeddus yn tyfu 3.4% a thai newydd preifat 3.3%. Rydym yn rhagweld y bydd cyfuniad o ffactorau fel twf mewn incwm gwario real aelwydydd, fforddiadwyedd morgeisi gwell, a thargedau adeiladu tai'r llywodraeth, i gyd yn cefnogi'r twf mewn allbwn tai.

Bydd y sector seilwaith hefyd yn gyfrannwr mawr at dwf adeiladu yn y pum mlynedd nesaf. Er y bydd y twf yn is nag ar gyfer tai newydd (1.9% ar gyfartaledd), y sector fydd yr ail gyfrannwr mwyaf at allbwn, gyda £160 miliwn ychwanegol yn ddisgwyliedig rhwng 2024 a 2029, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod y mwyaf o ran allbwn. Rydym yn disgwyl i fuddsoddiad seilwaith elwa o gynnydd arfaethedig mewn buddsoddiad cyfalaf cyhoeddus fel y cyhoeddwyd yng Nghyllideb Hydref y DU 2024, er bod manylion a graddfa lawn y rhain yn parhau i fod yn ansicr ar hyn o bryd. Mae sawl prosiect arwyddocaol eisoes ar y gweill. Mae hyn yn cynnwys y gwaith o adeiladu ffwrnais arc drydanol a gymeradwywyd yn ddiweddar ar safle Tata Steel ym Mhort Talbot, a chyhoeddiad 2024 mai Wylfa oedd y safle dewisol ar gyfer trydydd prosiect gorsaf bŵer niwclear newydd y DU.


Bydd twf y sectorau diwydiannol a masnachol yn fwy cymedrol. Mae patrymau gweithio hyblyg a gyflwynwyd gan bandemig Covid-19 yn parhau i effeithio ar weithgarwch masnachol, a disgwylir i allbwn yn y sector hwn dyfu 1.0% ar gyfartaledd yng nghyfnod 2025-2029. Rhagwelir y bydd allbwn adeiladu diwydiannol yn gostwng, er gwaethaf cynnydd bach yn 2025.

Disgwylir i weithgarwch atgyweirio a chynnal a chadw (R&M) dyfu ar gyflymder arafach dros y pum mlynedd nesaf. Er gwaethaf twf cryf yn 2024, rhagwelir y bydd atgyweirio a chynnal a chadw tai yn gostwng yn 2025, ac yna twf cymedrol hyd at 2029. Mae'r cynnydd mewn gweithgaredd R&M tai a welwyd yn ystod y pandemig wedi colli momentwm i raddau helaeth. Mewn cyferbyniad, disgwylir i atgyweirio a chynnal a chadw nad yw'n ymwneud â thai berfformio'n gryfach, gyda thwf blynyddol cyfartalog o 1.3% rhwng 2025 a 2029.

**Disgwylir i Gymru ragori'n sylweddol ar gyfartaledd y DU o ran twf tai newydd dros y 5 mlynedd nesaf.**



### Twf Allbwn Blynyddol Cyfartalog Cymru (2025-29)




### Allbwn Adeiladu Cymru, £m (prisiau 2022) (2024-29)

| Output sector | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai cyhoeddus newydd | 307 | 322 | 349 | 358 | 371 | 381 |
| Tai preifat newydd | 1,061 | 1,132 | 1,145 | 1,208 | 1,252 | 1,296 |
| **Holl dai newydd** | **1,368** | **1,454** | **1,493** | **1,566** | **1,623** | **1,678** |
| Seilwaith | 1,615 | 1,592 | 1,658 | 1,702 | 1,742 | 1,778 |
| Cyhoeddus nad yw'n dai | 795 | 847 | 854 | 875 | 894 | 918 |
| Diwydiannol | 194 | 211 | 206 | 202 | 199 | 194 |
| Masnachol | 664 | 671 | 695 | 695 | 698 | 698 |
| **Holl waith newydd** | **4,638** | **4,776** | **4,906** | **5,040** | **5,156** | **5,266** |
| Cynnal a Chadw tai | 1,240 | 1,182 | 1,207 | 1,207 | 1,221 | 1,233 |
| Cynnal a Chadw nad yw'n dai | 1,340 | 1,346 | 1,343 | 1,372 | 1,399 | 1,426 |
| **Holl Gynnal a Chadw** | **2,580** | **2,528** | **2,550** | **2,579** | **2,621** | **2,659** |
| **Holl Waith** | **7,218** | **7,304** | **7,456** | **7,619** | **7,777** | **7,925** |

# GWEITHLU

**Er bod gweithlu adeiladu ac amgylchedd adeiledig Cymru wedi lleihau 4.8% yn 2024, roedd ganddo dros 114,430 o bobl yn gweithio yn y diwydiant o hyd. Ar ôl nodi'r cynnydd disgwyliedig mewn gwaith, rydym yn rhagweld y bydd y gweithlu'n tyfu i gyrraedd tua 117,420 erbyn 2029. Mae hyn yn gyfradd twf gyfartalog flynyddol o 0.5% dros y cyfnod pum mlynedd, ychydig yn is na chyfradd y DU o 0.8%.**

Er bod 117,420 erbyn 2029 yn gynnydd cyffredinol o 3,000 o'i gymharu â'r gweithlu yn 2024, mae'n dal yn is o'i gymharu â'r gweithlu adeiladu ac amgylchedd adeiledig yn 2018 (122,500) a 2007 (128,000).

O'i gymharu â gweddill y DU, nodweddir Cymru gan gyfran uwch o grefftwyr medrus a gweithredwyr safle, a oedd yn cyfrif am 58% o'r gweithlu adeiladu yn 2024, o'i gymharu â 49% ledled y DU. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd y twf galwedigaethol cryfaf yng Nghymru mewn rolau rheoli a chymorth swyddfa, sydd wedi tyfu 1.6% ar gyfartaledd ers 2019, ond ychydig o dwf a fu mewn galwedigaethau crefftau medrus. Efallai bod y duedd hon yn newid, o ystyried y gofyniad cynyddol am grefftau medrus fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

Y galwedigaethau penodol i adeiladu y rhagwelir y byddant yn gweld y twf cyfartalog blynyddol cryfaf dros y pum mlynedd hyd at 2029 yw:

- Rheolwyr prosiectau adeiladu **(1.0%)**
- Mecanyddion/gosodwyr peiriannau **(1.0%)** a
- Peirianwyr sifil **(1.0%)**.

Mewn cyferbyniad, rydym yn disgwyl twf cyflogaeth is ymhlith paentwyr ac addurnwyr, gweithwyr tir, a gweithredwyr adeiladu ffyrdd a rheilffyrdd, a ragwelir y bydd pob un ohonynt yn tyfu dim ond 0.3% y flwyddyn ar gyfartaledd.

Ymhlith galwedigaethau crefftau medrus, rhagwelir hefyd y bydd gweithwyr dur a metel (1.0% y flwyddyn) a bricwyr a seiri maen (1.0%) yn gweld twf cyflogaeth cryfach na'r cyfartaledd dros y pum mlynedd nesaf.

Er ein bod yn rhagweld y bydd twf y gweithlu ar gyfradd ychydig yn is na chyfartaledd y DU dros y pum mlynedd nesaf, bydd twf o hyd ar draws yr ystod lawn o alwedigaethau sy'n gweithio yn yr amgylchedd adeiladu a'r amgylchedd adeiledig yng Nghymru.

**Bydd y gweithlu'n tyfu i gyrraedd tua 117,420 erbyn 2029.**



### Gweithlu Adeiladu Cymru (2024-29)

| Categori | 2024 | 2029 | Gweithwyr ychwanegol blynyddol | Ychwanegol fel % o weithlu 2024 |
|---|---|---|---|---|
| **Rheolwr a goruchwyliwr** | | | | |
| Cyfarwyddwyr, gweithredwyr ac uwch reolwyr | 9,460 | 9,730 | 170 | 1.8 |
| Rheolwyr prosiectau adeiladu | 1,490 | 1,570 | <50 | - |
| Goruchwylwyr crefftau adeiladu | 2,640 | 2,690 | <50 | - |
| **Crefftau medrus a chrefftau a leolir ar y safle** | | | | |
| Crefftau gosodiadau trydanol | 6,990 | 7,130 | 80 | 1.1 |
| Gweithwyr coed a seiri | 7,350 | 7,500 | 90 | 1.2 |
| Crefftau plymio a HVAC | 7,010 | 7,140 | 80 | 1.1 |
| Llafurwyr | 6,370 | 6,500 | 80 | 1.3 |
| Paentwyr ac addurnwyr | 3,440 | 3,490 | <50 | - |
| Gosodwyr brics a seiri maen | 2,580 | 2,710 | <50 | - |
| Plastrwyr | 2,970 | 3,020 | <50 | - |
| Logisteg | 2,530 | 2,600 | <50 | - |
| Gweithredwyr peiriannau | 2,120 | 2,190 | <50 | - |
| Towyr | 2,240 | 2,300 | <50 | - |
| Mecanegwyr/gosodwyr peiriannau | 1,480 | 1,550 | <50 | - |
| Llorwyr a theilswyr waliau | 1,600 | 1,640 | <50 | - |
| Gweithwyr tir | 2,340 | 2,380 | <50 | - |
| Sgaffaldwyr | 2,250 | 2,290 | <50 | - |
| Gweithredwyr adeiladu ffyrdd a rheilffyrdd | 2,270 | 2,300 | <50 | - |
| Gwydrwyr a chrefftau ffenestri | 1,100 | 1,130 | <50 | - |
| Codwyr dur a gweithwyr metel | 1,010 | 1,060 | <50 | - |
| Crefftau adeiladu eraill | 9,060 | 9,230 | 110 | 1.2 |
| Crefftau a geithredwyr nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu | 1,740 | 1,790 | <50 | - |
| **Proffesiynol a thechnegol** | | | | |
| Syrfewyr | 4,100 | 4,200 | 80 | 1.9 |
| Peirianwyr sifil | 2,010 | 2,110 | <50 | - |
| Penseiri | 1,280 | 1,340 | <50 | - |
| Gweithwyr proffesiynol a staff technegol eraill sy'n gweithio ym maes adeiladu | 9,920 | 10,240 | 200 | 2.0 |
| **Wedi'i leoli yn y swyddfa** | | | | |
| Staff proffesiynol a thechnegol wedi'u lleoli yn y swyddfa nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu | 10,370 | 10,620 | 170 | 1.6 |
| Staff wedi'u lleoli yn y swyddfa eraill nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu | 6,710 | 6,930 | 120 | 1.8 |
| **CYFANSWM** | **114,430** | **117,420** | **1,720** | **1.5** |

# GWEITHWYR YCHWANEGOL

**Mae'r modelu sy'n llywio'r rhagolwg yn edrych ar y twf cyflogaeth disgwyliedig yn erbyn llif y bobl sy'n symud i mewn ac allan o'r gweithlu adeiladu.**

Dangosir y llifoedd hyn ar y diagram ac maent yn dangos, mewn blwyddyn nodweddiadol, bod angen i'r diwydiant adeiladu ddisodli tua 8% o'i weithlu oherwydd trosiant naturiol.

Wrth gyfrifo nifer y gweithwyr ychwanegol sydd eu hangen i fodloni'r galw disgwyliedig, mae'r broses yn ystyried y ffaith y bydd lefel o fewnlif ac all-lif o weithwyr rhwng gwahanol ddiwydiannau, diweithdra ac anweithgarwch. Felly mae'r ffigur ar gyfer nifer y gweithwyr ychwanegol yn seiliedig ar:

- Y gwahaniaeth rhwng nifer y bobl sy'n gadael neu'n ymuno â'r diwydiant
- Disodli gweithwyr a fydd yn ymddeol ac
- Amcangyfrifiad o'r gweithwyr sydd eu hangen ar gyfer twf ychwanegol.

Amcangyfrifir bod nifer y gweithwyr ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer y cyfnod 2025-2029 yn gyfartaledd o 1,720 y flwyddyn, sy'n cyfateb i 1.5% o'r gweithlu presennol. Mae hyn yn golygu bod angen i'r diwydiant recriwtio'r hyn sy'n cyfateb i dros 8,600 o weithwyr ychwanegol dros y pum mlynedd nesaf.

Mewn termau absoliwt, y gwerthoedd uchaf ar gyfer galwedigaethau penodol i adeiladu yw ar gyfer:

- Staff proffesiynol a thechnegol eraill sy'n gweithio ym maes adeiladu **(angen 200 o weithwyr ychwanegol y flwyddyn)**
- Staff proffesiynol a thechnegol eraill wedi'u lleoli yn y swyddfa nad ydynt yn gweithio ym maes adeiladu **(170)** a
- Cyfarwyddwyr, swyddogion gweithredol ac uwch reolwyr **(170)**.

Ar gyfer grwpiau galwedigaethol sydd angen llai na 50 o weithwyr ychwanegol, y disgwyliad yw y bydd lefelau recriwtio diweddar yn gallu diwallu anghenion y dyfodol os cânt eu cynnal a bod hysbysebion swyddi gweigion yn aros ar y lefelau presennol.

Efallai y bydd gan grwpiau galwedigaethau sy'n cyfrif am gyfran fwy o'r gweithlu werthoedd gweithwyr ychwanegol mwy. Mae gweld gweithwyr ychwanegol fel canran o'r gweithlu ar gyfer pob grŵp yn helpu i ddangos galwedigaethau sy'n debygol o fod â galw cryfach, megis:


- Staff proffesiynol a thechnegol eraill sy'n gweithio ym maes adeiladu **(2.0% o'r gweithlu presennol)**
- Syrfewyr **(1.9%)**;
- Cyfarwyddwyr, swyddogion gweithredol ac uwch reolwyr **(1.8%)** a
- Staff eraill wedi'u lleoli yn y swyddfa nad ydynt yn gweithio ym maes adeiladu **(1.8%)**.

Yn y pen draw, mae hyn yn tynnu sylw at sut y mae'n rhaid i recriwtio cwmpasu'r ystod lawn o rolau, o swyddi wedi'u lleoli o fewn y swyddfa ac ar y safle.

Fel y mae'r adroddiad yn ei nodi, mae galw clir am weithwyr yn y blynyddoedd i ddod ac mae ei ddiwallu angen buddsoddiad cynaliadwy mewn hyfforddiant sy'n cefnogi pobl i gael swyddi. Bydd hyn yn her, fodd bynnag, i newid sut mae'r diwydiant adeiladu yn ceisio denu, hyfforddi a chadw ei weithlu mwy abl sydd wedi'i gyfarparu'n well ar gyfer graddfa'r galw yn y dyfodol.

**Mae angen 1,720 o weithwyr ychwanegol y flwyddyn.**







Ffynhonnell: ONS LFS longitudinal, 2024.
Noder: efallai na fydd y canlyniadau'n cyfateb i 100 oherwydd talgrynnu.


# RHAGOLYGON Y GWEITHLU ADEILADU
# CYMRU

## DARLLENWCH ADRODDIADAU EIN CENHEDLOEDD:





Rhagolygon Gweithlu Adeiladu | Y Deyrnas Unedig

Gweld adroddiad





Rhagolygon Gweithlu Adeiladu | Lloegr

Gweld adroddiad




Rhagolygon Gweithlu Adeiladu | Yr Alban

Gweld adroddiad




Rhagolygon Gweithlu Adeiladu | Gogledd Iwerddon

Gweld adroddiad

Yn well gennych ddarllen fersiwn Saesneg yr adroddiad hwn? Gweld adroddiad


## I GAEL RHAGOR O WYBODAETH AM YR ADRODDIAD HWN:

CYSWLLT:

IAN HILL
IAN.HILL@CITB.CO.UK

YMWELD:

CITB.CO.UK/CWO




Rhagolygon Gweithlu Adeiladu | Wedi'i egluro

Gweld adroddiad

Mae CITB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestru 264289) ac yn yr Alban (Rhif Cofrestru SC044875). Mae CITB yn bartner yn ConstructionSkills, Cyngor Sgiliau Sector y diwydiant adeiladu yn y DU.